11 December 2020

The Owner/Occupier

Our Ref: 403.06559.00021

Dear Sir/Madam

RE: TOWN AND COUNTRY PLANNING (DEVELOPMENT MANAGEMENT PROCEDURE) (WALES) ORDER 2012
PUBLICITY AND CONSULTATION BEFORE APPLYING FOR PLANNING PERMISSION

SLR Consulting Limited has been appointed by Breedon Southern Limited (trading as Welsh Slate) to prepare two planning applications for Penrhyn Quarry, near Bethesda, Gwynedd, LL57 4YG. The first planning application seeks a small lateral extension to the working area of the quarry, effectively 'squaring off' the workings at its south-western corner. Land associated with the proposed extension lies wholly within the boundary of the current planning permission. The second planning application seeks to amend the provisions of the extant planning permission in so far as it relates to the restoration scheme for the quarry (by increasing the height of two of the quarry tips following a review of tipping requirements) and the duration of extraction operations.

In accordance with above regulations, before a planning application can be submitted the applicant must undertake a period of consultation seeking views from the local community and specialist consultees (such as Natural Resources Wales and Gwynedd Council). As such, we are writing to owners/occupiers of the closest properties to the site to make them aware of the consultation period and where copies of the draft planning application can be viewed. Accompanying this letter are the formal notices we are obliged to serve (in English and Welsh) which provide the relevant information. Of note is that the consultation period is for a period of 42 days, expiring on the 22 January 2021. A copy of the draft planning application can be viewed on line at http://www.welshslate.com/news/. Should you have any observations or wish to comment on the planning application then please feel free to email or write to me at the address below (email clowden@slrconsulting.com). Please note that you will also have the opportunity to make representations to the planning application once it is submitted.

Yours faithfully
SLR Consulting Limited

Chris Lowden
Technical Director – Environment and Social Impact Assessment

11 Rhagfyr 2020

Y Perchennog/Meddiannydd

Ein Cyf: 403.06559.00021

Annwyl Syr/Madam

PARTHED: ***GORCHYMYN CYNLLUNIO GWLAD A THREF (GWEITHDREFN RHEOLI DATBLYGU) (CYMRU) 2012***
CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN YMGEISIO AM GANIATÂD CYNLLUNIO

Mae SLR Consulting Limited wedi cael ei benodi gan Breedon Southern Limited (sy'n masnachu fel Welsh Slate) i baratoi dau gais cynllunio ar gyfer Chwarel Penrhyn, ger Bethesda, Gwynedd, LL57 4YG. Mae'r cais cynllunio cyntaf yn ymwneud ag estyniad ochrol bach i ardal waith y chwarel, a fydd i bob pwrpas yn 'sgwario' y gwaith chwarel yn ei gornel dde-orllewinol. Mae'r tir sy'n gysylltiedig â'r estyniad arfaethedig yn gorwedd yn gyfan gwbl o fewn ffin y caniatâd cynllunio cyfredol. Mae'r ail gais cynllunio yn ceisio caniatâd i ddiwygio darpariaethau'r caniatâd cynllunio sy'n bodoli i'r graddau y mae'n ymwneud â'r cynllun adfer ar gyfer y chwarel (drwy gynyddu uchder dwy domen chwarel yn dilyn adolygiad o'r gofynion tipio) a hyd y gwaith echdynnu.

Yn unol â'r rheoliadau uchod, cyn y gellir cyflwyno cais cynllunio, rhaid i'r ymgeisydd ymgymryd â chyfnod o ymgynghori, gan geisio barn y gymuned leol ac ymgynghoreion arbenigol (megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd). O ganlyniad, rydym yn ysgrifennu at berchnogion/meddianwyr yr eiddo agosaf at y safle i'w hysbysu am gyfnod ymgynghori a lle gellir edrych ar gopïau drafft o'r cais cynllunio. Ynghlwm â'r llythyr hwn mae hysbysiadau ffurfiol y mae'n ofynnol i ni eu darparu (yn Gymraeg a Saesneg) sy'n nodi'r wybodaeth berthnasol. Noder bod y cyfnod ymgynghori yn para 42 diwrnod, gan ddod i ben ar 22 Ionawr 2021. Gellir gweld copi drafft o'r cais cynllunio ar-lein yn http://www.welshslate.com/news/. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu'n dymuno gwneud sylw ar y cais cynllunio yna mae croeso i chi anfon e-bost neu ysgrifennu ataf i'r cyfeiriad isod (e-bost clowden@slrconsulting.com). Noder, bydd gennych hefyd gyfle i wneud sylwadau ar y cais cynllunio ar ôl iddo gael ei gyflwyno.

Yn eiddoch yn gywir
SLR Consulting Limited

Chris Lowden
Cyfarwyddwr Technegol – Asesu'r Effaith Amgylcheddol a Chymdeithasol